STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru

**DYDDIAD: Mawrth 2022**

# Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru

**Rhagair**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddiwylliant ‘dim goddefgarwch’ i achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygru.

Rydyn ni'n parhau i wynebu rhai heriau anodd, yn enwedig y cyd-destun ariannol ac o ran adfer yr economi yn dilyn y pandemig. Wrth i ni barhau i wneud Rhondda Cynon Taf yn lle gwell i fyw, gweithio a gwneud busnes, mae'n hanfodol ein bod ni'n gallu diogelu ein hadnoddau a'n hasedau cyfyngedig rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

Dydy Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddim yn ddiogel rhag y peryglon yma. Os bydd peryglon yn dod i'r amlwg ac arian yn cael ei golli i dwyllwyr yna mae'n lleihau'r adnoddau sydd ar gael i'w gwario ar wasanaethau hanfodol i'n trigolion.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i esbonio i bob rhanddeiliad na fydd camymddwyn o unrhyw fath yn cael ei oddef. Mae angen inni ddangos y safonau uchaf o onestrwydd a thryloywder. Er bod gan yr holl randdeiliaid ran i'w chwarae i leihau'r risg o dwyll, mae Aelodau Etholedig ac Uwch Reolwyr mewn sefyllfa ddelfrydol i ddylanwadu ar naws ddiwylliannol y sefydliad a chwarae rhan hanfodol wrth feithrin diwylliant o safonau moesegol uchel ac uniondeb.

Disgwylir i Uwch Arweinwyr y Cyngor a’r Carfanau Rheoli ehangach ymdrin yn gyflym ac yn gadarn â’r rhai sy’n ceisio twyllo’r Cyngor. Fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddim yn goddef twyll, llwgrwobrwyo na lygredd; bydd yn ceisio rhoi'r cosbau cryfaf yn erbyn y rhai sy'n credu ei bod hi'n dderbyniol rhoi cynnig ar y troseddau yma.

Mae'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru yma'n nodi'r cyfrifoldebau a'r ymddygiadau sydd i'w disgwyl gan bawb. Bydd y Cyngor yn cadw at y saith egwyddor bywyd cyhoeddus sydd wedi'u nodi yn adroddiad Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus:

**Anhunanoldeb:** Dylai’r rhai sy’n dal swydd gyhoeddus wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Ddylen nhw ddim gwneud hynny er mwyn ennill yn ariannol neu'n faterol, er budd eu teulu, eu ffrindiau neu nhw eu hunain.

**Gonestrwydd:** Ddylai’r rhai sy’n dal swydd gyhoeddus ddim rhoi eu hunain mewn sefyllfa o rwymedigaeth ariannol neu unrhyw rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu ar y ffordd maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd:** Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai’r rhai sy’n dal swydd gyhoeddus wneud dewisiadau yn ôl haeddiant.

Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru

**Atebolrwydd:** Mae'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd, a rhaid iddyn nhw gydymffurfio ag unrhyw brosesau craffu sy'n briodol i'w swydd.

Bod yn agored: Dylai'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u holl benderfyniadau a gweithredoedd. Dylen nhw roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar wybodaeth oni bai ei bod yn gwbl amlwg bod angen gwneud hynny er budd ehangach y cyhoedd. Mae bod yn agored yn gofyn am ymagwedd gynhwysol, ffocws allanol ac ymrwymiad i bartneriaethau.

**Gonestrwydd:** Mae gan y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd.

**Arweinyddiaeth:** Dylai'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yma drwy ddangos arweinyddiaeth ac esiampl.

***Rhaid i ni geisio atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Serch hynny, os bydd gweithgareddau twyllodrus yn digwydd, bydd ymateb gorfodi cadarn yn cael ei gymhwyso i fynd ar drywydd twyllwyr ac i atal eraill rhag twyllo.***



Y Cynghorydd Andrew Morgan
Arweinydd

Chris Bradshaw
Prif Weithredwr

# Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru

## Rhan 1

## Cyflwyniad a Diben

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn benderfynol o gynnal ei enw da – sef Cyngor sydd ddim yn goddef twyll, llwgrwobrwyo, llygru neu gamddefnydd o statws ar gyfer elw personol. Yn rhan o'i gyfrifoldebau, mae'r Cyngor yn benderfynol o amddiffyn ei hun rhag twyll, llwgrwobrwyaeth a llygredd oddi mewn ac o'r tu allan i'r Cyngor a rhag unrhyw fygythiadau allanol.

1.2 Mae cyd-gyfrifoldeb dros hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll, llygredd a llwgrwobrwyo ar bob un sy'n ymwneud â rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol, penderfynu strategaethau a rheoli. Mae'r Cyngor yn disgwyl i Aelodau Etholedig a gweithwyr ar bob lefel osod esiampl o ran sicrhau y bydd gofynion cyfreithiol, rheoliadau ariannol, codau ymddygiad, gweithdrefnau ac arferion da yn cael eu cynnal. Mae'r ddogfen yma'n rhan o wreiddio'r disgwyliad yma yn niwylliant y sefydliad gan osod y gofynion llywodraethu, yr adnoddau a ddefnyddir i nodi a rheoli'r risg cysylltiedig ynghyd â sut mae modd i unigolion roi gwybod am eu hamheuon.

1.3 Mae'r Strategaeth yma'n berthnasol i Aelodau Etholedig, Aelodau cyfetholedig o bwyllgorau a phob gweithwyr. Lle mae'r Cyngor yn gwneud cytundeb gyda chyflenwyr neu gontractwyr allanol yna bydd cymalau priodol yn cael eu cynnwys yn ei gontractau mewn perthynas â'r canlyniadau pe bai twyll, llwgrwobrwyo neu lygru yn dod i'r amlwg.

1.4 Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb o'r holl randdeiliaid ynghyd â'u rolau a'u cyfrifoldebau, gyda rhestr o Ddiffiniadau yn Atodiad B a'r mathau o Beryglon Twyll i Awdurdod Lleol yn Atodiad C.

1.5 Mae'r strategaeth yma'n seiliedig ar egwyddorion allweddol y Strategaeth Atal Twyll a Llygredd Llywodraeth Leol 2016-2019, ond mae wedi'i diweddaru i gynnwys dau faes gweithgarwch ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg, sef 'llywodraethu' ac 'amddiffyn'.

Ffigur 1: Egwyddorion lefel uchel Atal Twyll Llywodraeth Leol wedi'u diweddaru:

(Ffynhonnell : Fighting Fraud and Corruption Locally – A strategy for the 2020s)

**Llywodraethu**
Meddu ar drefniadau cadarn a chymorth gweithredol i sicrhau bod mesurau gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygru wedi'u gwreiddio ledled y sefydliad. Mae dilyn dull cyfannol o fynd i'r afael â thwyll yn rhan o lywodraethu da.

**Cydnabod**
Cydnabod a deall risgiau twyll a rhoi cymorth ac adnoddau i fynd i'r afael â thwyll er mwyn cynnal ymateb gwrth-dwyll cadarn.

**Atal**
Atal a chanfod rhagor o dwyll trwy wneud gwell defnydd o wybodaeth a thechnoleg, gwella rheolaethau a phrosesau twyll a datblygu diwylliant gwrth-dwyll mwy effeithiol.

**Erlyn**
Cosbi twyllwyr ac adennill colledion drwy roi blaenoriaeth i ddefnyddio sancsiynau sifil, datblygu gallu a chapasiti i ymchwilio i dwyllwyr a datblygu ymateb gorfodi lleol mwy cydweithredol a chefnogol. Mae awdurdodau lleol wedi cael llwyddiant drwy ddilyn y dull yma; fodd bynnag, mae angen iddyn nhw'n awr ymateb i fygythiad cynyddol ac amddiffyn eu hunain a'r gymuned.

**Diogelu**
Amddiffyn rhag troseddau difrifol a threfniadol, amddiffyn unigolion rhag dod yn ddioddefwyr trosedd a diogelu rhag y niwed mae modd i dwyll ei wneud i'r gymuned. I awdurdod lleol bydd

hyn hefyd yn cynnwys diogelu arian cyhoeddus, amddiffyn ei sefydliad rhag twyll a seiberdroseddu ac amddiffyn ei hun rhag twyll yn y dyfodol.

Ffigur 2 – Yn rhoi cyd-destun pellach ar sut mae'r holl gydrannau gwrth-dwyll gweithredol yn rhyngweithio i ddarparu strategaeth effeithiol:



## Rhan 2

## Trefnau Llywodraethu

2.1 Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol gyfrifoldeb, yn ôl Adran 151 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i sicrhau bod y trefniadau cywir yn cael eu gwneud o ran materion y Cyngor. Yn ogystal, mae RHAN 3 (Rheolaeth Ariannol a Rheolaeth Fewnol) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi:

*'The accounting control systems determined in accordance with paragraph (1)(b) must include—*

4.1 *measures to ensure that the financial transactions of the body are recorded as soon as reasonably practicable and as accurately as reasonably possible, measures to enable the prevention and detection of inaccuracies and fraud, and the ability to reconstitute any lost records'*

2.2 Bwriad y Cyngor yw sicrhau systemau a gweithdrefnau ariannol cadarn sy'n cynnwys rheolaeth fewnol effeithiol ac effeithlon. Nod y mecanweithiau a nodir yn Adran 3 y Strategaeth yma yw cyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor sy'n gysylltiedig ag atal a chanfod twyll, llwgrwobrwyo a llygru.

2.3 Mae gan y Cyngor y Polisïau a'r Gweithdrefnau a ganlyn sy'n cefnogi gweithredu bwriadau'r Cyngor o ran atal twyll, llwgrwobrwyo a llygru:

- Strategaeth a Gweithdrefn Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru sy'n pwysleisio pwysigrwydd cywirdeb i bawb dan sylw;
- Cymorth i Aelodau Etholedig;
- Codau ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig a Gweithwyr;
- Strategaeth Chwythu'r Chwiban, a Gweithdrefn Gwynion neu Gynllun Adborth Corfforaethol;
- Rheolau Trefniadaeth Cytundebau a Rheolau Trefniadaeth Ariannol;
- Systemau rheoli mewnol, gweithdrefnau a chofnodion dibynadwy sy'n sefydlog;
- Gweithdrefnau disgyblu eglur;
- Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Archwilio Mewnol a Llywodraethu effeithiol;
- Carfan Twyll Corfforaethol;
- Proses asesu risg mewn perthynas â thwyll, llwgrwobrwyo a llygru posibl;
- Gweithdrefnau recriwtio effeithiol;
- Cyfrifoldebau, atebolrwydd a safonau eglur wedi'u nodi dan y Cynllun Dirprwyo;
- Sefydlu a hyfforddiant i weithwyr ac Aelodau Etholedig;
- Polisïau a Gweithdrefnau Rheoli Gwybodaeth;
- System adnabod ar gyfer honiadau o atebolrwydd twyllodrus yn erbyn y Cyngor;
- Rhannu gwybodaeth rhwng adrannau'r Cyngor; a
- Rheolaeth lem ynghylch rhoddion a lletygarwch.

Ataliaeth

2.4 Mae sawl ffordd o atal twyllwyr posib rhag cyflawni neu geisio cyflawni gweithredoedd twyllodrus neu lwgr, p'un ai eu bod nhw'n fewnol neu'n allanol. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddorion canlynol:

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y Cyngor yn gadarn yn erbyn twyll, llwgrwobrwyo a llygredd ac yn datgan hyn ar bob cyfle priodol;
- Gweithredu'n llym ac yn benderfynol pan fod twyll, llwgrwobrwyo a llygru yn cael eu hamau a'u profi - e.e. terfynu cytundebau, diswyddo, erlyn, amddiffyn honiadau twyll posib ac ati;
- Cymryd camau i sicrhau bod dulliau adfer/unioni yn cael eu gwneud i'r Cyngor, e.e drwy gytundeb, achosion llys, cosbau, yswiriant ac ati;
- Cynnal a chadw systemau rheoli mewnol cadarn sy'n caniatau ar gyfer datblygiadau newydd, sy'n lleihau cyfleoedd i gyflawni twyll, llwgrwobrwyo a llygru;
- Hysbysebu erlyniadau llwyddiannus.

Hyfforddiant

2.5 Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes drwy roi rhaglen strwythuredig o ymwybyddiaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygru ar waith ar gyfer Aelodau Etholedig a gweithwyr.

2.6 Nod y rhaglen waith hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yw sicrhau bod diwylliant gwrth-dwyll cryf wedi'i wreiddio ar draws holl feysydd y Cyngor ac mae hyn yn cael ei arwain gan arbenigwyr gwrth-dwyll.

2.7 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd llwyddiant parhaus y Strategaeth yma'n dibynnu i raddau helaeth ar effeithiolrwydd hyfforddiant wedi'i raglennu, cyfathrebu ac ymatebolrwydd Aelodau Etholedig a gweithwyr ar draws y sefydliad.

Gweithio gydag Eraill i Atal a Gwrthwynebu Twyll

2.8 Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn achosion o dwyll wedi'i drefnu yn erbyn cyrff cyhoeddus, mae'n hanfodol i gyfathrebu â sefydliadau eraill. Mae'r Cyngor yn ymrwymo at gyfnewid gwybodaeth gydag asiantaethau lleol a chenedlaethol eraill er mwyn dod o hyd i achosion twyll a'u hatal drwy ddefnyddio technegau paru data. Mae hyn yn digwydd drwy gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Diogelu Data 1998, ac yn unol â Menter Twyll Genedlaethol y Comisiwn Archwilio.

2.9 Os ydy gweithiwr yn cael ei ddal yn cyflawni twyll yn erbyn asiantaethau lleol neu genedlaethol arall, mae'n bosibl iddo wynebu camau disgyblu am gamymddwyn difrifol. Mae twyll yn effeithio ar ymddiriedaeth a hyder y Cyngor yn ei weithwyr.

## Adran 3

## Adnoddau yn eu lle i Atal Risgiau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygru

3.1 Mae Strategaeth Atal Twyll a Llygredd Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio adnoddau priodol i atal risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll, llwgrwobrwyo a llygru posibl. Rhaid i'r adnoddau sydd ar waith fod â'r gallu, capasiti a chymhwysedd priodol.

3.2 Ar ôl trosglwyddo staff i Wasanaeth Ymchwilio i Dwyll yr Adran Gwaith a Phensiynau, cadwodd y Cyngor staff ag arbenigedd ym maes ymchwiliadau twyll. Mae hwn yn ffurfio Carfan Twyll Corfforaethol canolog / arbenigol y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno i gynnal ymchwiliadau twyll ar y cyd gyda Gwasanaeth Ymchwilio i Dwyll yr Adran Gwaith a Phensiynau sydd o fudd i'r ddau sefydliad.

Y Garfan Dwyll - Mynediad i Wybodaeth

3.3 Er mwyn sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i ymchwilio i honiadau o afreoleidd-dra, mae'r Cyngor yn sicrhau:

- Mae gan Swyddogion Gwrth-dwyll fynediad anghyfyngedig i staff, eiddo'r Cyngor a dogfennau at ddibenion gwaith gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygru;
- Mae Swyddogion Gwrth-dwyll yn aelodau o staff sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol ac sydd wedi'u hachredu; a
- Os yw archwilwyr mewnol yn cefnogi gwaith gwrth-dwyll rhaid iddyn nhw gael eu harwain gan aelod o'r garfan Dwyll Corfforaethol.
- Os yw adran Adnoddau Dynol yn cefnogi gwaith gwrth-dwyll rhaid iddyn nhw gael eu harwain gan aelod o'r garfan Dwyll Corfforaethol.

3.4 Mae gwaith y garfan Gwrth-dwyll yn cwmpasu pob maes o waith gwrth-dwyll ac mae modd ei rannu'n 3 chategori gwahanol:

### 1. Asesu Risg

3.5 Cynnal ac adolygu ac esblygu Asesiad Risg Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygru'r Cyngor yn barhaus.

3.6 Mae nodi risg Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygru yn hanfodol er mwyn deall amlygiadau penodol (posibl) i risg, patrymau newidiol mewn bygythiadau posibl a'r canlyniadau posibl i'r sefydliad a'r rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau.

3.7 Er mwyn darparu dull cadarn o atal a chanfod amlygiad i risg posibl, mae'n ofynnol i'r Cyngor asesu a deall cwmpas risgiau posibl o dwyll, llygru a llwgrwobrwyo ar draws y Cyngor. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb yma, defnyddir asesiad risg yn sail i lunio rhaglen o waith gwrth-dwyll sy'n cael ei chrynhoi a'i chyfleu mewn 'Cynllun Gweithredu Risg Twyll'.

3.8 Bydd hyn yn cael ei adrodd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a bydd yn adlewyrchu'r adnoddau gofynnol wedi'u mapio i risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll, llwgrwobrwyo a llygru posibl.

3.9 Bwriad y Cyngor yw asesu bod adnoddau gwrth-dwyll yn gymesur â'r risgiau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu a'u cysoni â chanlyniadau'r asesiad risg a grynhoir mewn 'Cynllun Gweithredu Risg Twyll'.

**2. Gwaith cynghori (wedi'i alinio â chanlyniadau'r asesiadau risg)**

3.10 Y llinell amddiffyn gyntaf yw mynd ati'n rhagweithiol i geisio atal a chanfod twyll, llwgrwobrwyo a llygru.

3.11 Mae'r Cynllun Gweithredu Risg Twyll yn cofnodi canlyniad yr asesiad risg ar gyfer pob gwasanaeth h.y. mae'n dangos y rhai a aseswyd fel rhai sy'n debyg o fod dan risg Uchel, Canolig ac Isel.

3.12 Bydd y Cynllun Gweithredu Risg Twyll yn cofnodi ble mae adnoddau'r Garfan Twyll Corfforaethol i'w defnyddio er mwyn gweithio gyda'r gwasanaethau perthnasol gyda'r nod o adolygu trefniadau ac, os yw'n briodol, argymell rheolaethau ataliol a ditectif.

**3. Gwaith Ymchwilio ac Adrodd/Rhoi Gwybod**

3.13 Ar ôl derbyn atgyfeiriad, bydd y swyddog ymchwilio yn cynnal ymchwiliad trylwyr yn seiliedig ar y canlynol:

- Ymdrinnir â'r mater yn brydlon;
- Bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu'n gyfreithlon a'i chyflwyno'n broffesiynol, waeth fo a yw canlyniad disgwyliedig ymchwiliad yn wrandawiad disgyblu, yn achos sifil neu'n achos troseddol;
- Bydd swyddogion yn cofnodi ac yn sicrhau bod yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd a sicrhau ei bod yn gadarn ac yn cael ei chefnogi'n ddigonol;
- Cysylltu ag asiantaethau eraill lle bo'n briodol; a
- Rhoi gwybod i yswirwyr y Cyngor lle bo'n briodol;

3.14 Bydd unrhyw wendidau a ddatgelir gan achosion o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygru profedig yn cael eu bwydo'n ôl i'r Rheolwyr trwy adroddiad ffurfiol a fydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r Uwch Reolwyr perthnasol a Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor.

3.15 Bydd adennill asedau ac adennill sifil yn cael eu hystyried ym mhob achos.

3.16 Mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cyngor, bydd achosion llys llwyddiannus sy'n profi twyll/llygru yn cael eu cyhoeddi lle bo'n briodol, er mwyn codi ymwybyddiaeth ac atal eraill rhag twyllo.

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Charfan yr Uwch Reolwyr - Trefniadau Adrodd**

3.17 Drwy gydol y flwyddyn, bydd ystadegau'n cael eu cadw gan y Garfan Twyll Corfforaethol a'u hadrodd i'r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n cwmpasu pob maes gweithgaredd ynghyd â'r canlyniadau.

3.18 Bydd adroddiad blynyddol o'r holl weithgareddau a gyflawnir gan y Garfan Twyll Corfforaethol (yn cynnwys gwaith asesu risg, gwaith cynghori a gwaith ymchwilio) yn cael ei adrodd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor.

## Adran 4

## Rhoi gwybod am Bryderon

4.1 Er gwaethaf ymdrechion y Cyngor i sefydlu fframweithiau rheolaeth fewnol effeithiol, mae achosion twyll yn aml yn cael eu datgelu ar ddamwain neu o gael gwybod gan rywun arall. Yn aml iawn, rydyn ni'n gallu darganfod hyn oherwydd bod Aelodau Etholedig, gweithwyr a'r cyhoedd yn sylwi.

4.2 Mae'r adran ganlynol yn anelu at roi arweiniad clir ar gyfer codi pryderon ynghyd â'r ymateb y gall unigolion ei ddisgwyl gan y Cyngor er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â honiadau.

Bydd pryderon yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn cael eu hymchwilio a'u trin yn deg.

4.3 Mae'r Cyngor yn annog mynegi pryderon mewn perthynas ag achosion posibl o dwyll mewn ysgrifen drwy ddefnyddio'r adran 'Rhoi Gwybod' ar wefan y Cyngor. Dylech chi gynnwys cymaint o wybodaeth berthnasol ag sy'n bosibl, er enghraifft, dyddiadau, digwyddiadau a thystion. Os does dim modd cael mynediad i'r Rhyngrwyd:

- Mae modd anfon llythyrau at y Garfan Twyll Corfforaethol
  Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
  Carfan Twyll Corfforaethol,
  Tŷ Oldway,
  Porth,
  CF39 9ST

Neu

- Ffonio'r Garfan Twyll Corfforaethol ar 01443 680507

4.4 Fel arall, cysylltwch â'ch Cynghorydd Lleol.

4.5 Y cynharaf mae unigolyn yn mynegi pryder, yr hawsaf yw hi i gymryd camau priodol.

4.6 Er mwyn sicrhau cywirdeb unrhyw ymchwiliad posibl, bydd ymholiadau cychwynnol ac asesiad risg yn cael eu gwneud i benderfynu a yw ymchwiliad yn briodol.

4.7 Fel arfer, bydd pryderon neu honiadau sy'n dod o fewn cwmpas gweithdrefnau penodol (er enghraifft, ar gyfer materion diogelu plant neu wahaniaethu) yn cael eu hatgyfeirio i'w hystyried o dan y gweithdrefnau hynny.

4.8 Er y bydd y Cyngor yn gweithredu ar adroddiadau dienw, anogir unigolion i adael eu manylion cyswllt er mwyn i swyddog ymchwilio allu cysylltu a chasglu unrhyw wybodaeth atodol sydd ei hangen. Sicrheir cyfrinachedd.

4.9 Ar ôl derbyn gwybodaeth, cynhelir ymchwiliad cydgysylltiedig a phriodol i sicrhau:

- Triniaeth gyson o wybodaeth sy'n ymwneud â thwyll, llwgrwobrwyo a llygru;
- Cynhelir ymchwiliad priodol gan swyddogion annibynnol, profiadol a chymwys; a
- Diogelu buddiannau'r Cyngor i'w gorau gallu.

4.10 Gan ddibynnu ar natur a graddau disgwyliedig yr honiadau, efallai bydd y swyddog ymchwilio yn gweithio'n agos, er enghraifft, gyda'r Rheolwyr, Carfan Archwilio Mewnol Adnoddau Dynol a/neu'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Charfan 'Seiberddiogelwch' y Cyngor.

4.11 Lle bo achosion o amhriodoldeb ariannol yn cael eu darganfod, bydd Cyngor yn ystyried atgyfeirio'r achos at yr Heddlu, yn seiliedig ar ffeithiau'r achos unigol. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu a fydd erlyniad yn cael ei ddilyn. Bydd pob atgyfeiriad i'r Heddlu yn cael ei drafod gyda'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol. Ni fydd achos troseddol posibl yn atal gweithredu dan weithdrefn ddisgyblu'r Cyngor (os yw'r digwyddiad yn ymwneud â gweithiwr).

*Polisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban*

4.12 Mae Polisi a Gweithdrefn Chwythu Chwiban y Cyngor yn cynnig cyngor i weithwyr ynghylch codi pryderon, yn ogystal â gwybodaeth am y diogelwch a'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n codi'r pryderon.

- At ddibenion y Polisi a'r Weithdrefn yma, mae 'gweithwyr' yn cyfeirio at bawb sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor a hefyd, y sefydliadau hynny sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor - h.y. gweithwyr, contractwyr a chyflenwyr; a
- Anogir gweithwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon drwy drefniadau Chwythu'r Chwiban y Cyngor; fodd bynnag, mae modd iddyn nhw hefyd roi gwybod am bryderon trwy drefniadau Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru'r Cyngor.

4.13 Mae rhaid sicrhau fod y prosesau ymchwilio ddim yn cael eu trin mewn ffordd amhriodol. Felly, efallai bydd achosion o gamdrin mewnol e.e. honiadau niweidiol neu ofidus, yn cael eu trin yn fater disgyblu (os ydyn nhw wedi'u codi gan weithwyr).

## Rhan 5

## Casgliad

5.1 Mae gan y Cyngor rwydwaith amlwg o systemau a gweithdrefnau i'w cynorthwyo yn ei frwydr yn erbyn twyll, llwgrwobrwyo a llygru. Penderfynwyd y byddai'r trefniadau hyn yn cadw i fyny â datblygiadau pellach sy'n ymwneud â darganfod gweithgareddau twyllodrus neu lygredd a allai effeithio ar weithrediad neu gyfrifoldebau cysylltiedig.

5.2 I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o drefniadau o'r fath trwy ei Uwch Arweinwyr a pholisïau a gweithdrefnau. Bydd y Strategaeth yma'n ddibynnol ar adolygiad rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

5.3 Os bydd unigolion yn dymuno codi pryder y tu allan i'r trefniadau yn y ddogfen yma, mae'r pwyntiau cyswllt a ganlyn hefyd ar gael:

- Yr Archwiliwr Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru). Mae modd ffonio Swyddfa Archwilio Cymru ar 01443 680349,
- Cyrff proffesiynol perthnasol neu sefydliadau rheoleiddio e.e. Cyllid y Wlad neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch,
- Yr Heddlu drwy Action Fraud (0300 123 2040).

**ATODIAD A - Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

| **Swydd** | **Cyfrifoldebau** |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Yn atebol yn y pen draw am osod naws a diwylliant y sefydliad o ran diwylliant dim goddefgarwch.<br>Yn atebol am effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer atal twyll, llwgrwobrwyo, llygru ac am seiberddiogelwch. |
| Arweinydd y Cyngor ac Aelodau o'r Cabinet | Yn gyfrifol am osod naws a diwylliant y sefydliad o ran diwylliant dim goddefgarwch. |
| Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol | Er mwyn sicrhau bod y Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gwrth-dwyll briodol, bod amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol ar waith ac mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol ag adnoddau digonol i roi sicrwydd. Sicrhau trefniadau priodol o ran lliniaru risg seiber a sicrwydd. |
| Swyddog Monitro a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol | Cynghori Cynghorwyr a Swyddogion ar faterion moesegol, safonau a phwerau i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn ôl y gyfraith a Chodau Ymarfer statudol.<br><br>Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol wedi'i benodi yn Swyddog Monitro. Mae cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal a gweithredu Codau Ymddygiad y Cyfansoddiad yn rhan o'r swydd. |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | **Datganiad o Ddiben**<br>Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw monitro digonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig; darparu craffu annibynnol ar gyflawniad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau ei fod yn effeithio ar amlygiad yr Awdurdod i risg ac yn gwanhau'r amgylchedd rheoli; a goruchwylio'r broses adrodd ariannol.<br>Mae cyfrifoldebau penodol yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi:<br>**K.** Derbyn adroddiadau ad hoc ar unrhyw faterion arwyddocaol sy'n ymwneud â thwyll, lladrad neu faterion priodol eraill sy'n torri Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Awdurdod, yn rhan o'r gwaith datblygu diwylliant gwrth-dwyll.<br>**M.** Hyrwyddo ac adolygu unrhyw fesurau sydd wedi'u llunio i godi proffil gonestrwydd/cywirdeb o fewn y Cyngor. |
| Pwyllgor Safonau | Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau a chynorthwyo Aelodau i gadw at y Côd Ymddygiad.<br>**Cylch Gorchwyl** (adran berthnasol)<br>**A.** Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr, Aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr Eglwysi a Rhiant Lywodraethwyr. |

# Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru

| | |
|---|---|
| Aelodau Etholedig | Cydymffurfio â Chôd Ymddygiad yr Aelodau a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig y Cyngor, bod yn effro i'r posibilrwydd o dwyll, llygru a lladrad, a rhoi gwybod am unrhyw bryderon gwirioneddol yn unol â hynny.<br><br>Mae Aelodau Etholedig yn elfen bwysig o ran agwedd y Cyngor tuag at dwyll, llwgrwobrwyo a llygru. Rydyn ni'n eu hannog ac yn disgwyl eu bod nhw'n codi unrhyw bryderon ynglŷn â'r materion hyn pan fyddan nhw'n gysylltiedig â gweithredoedd y Cyngor. |
| Archwilio Allanol | Dyletswydd statudol i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer atal a chanfod twyll, llygru a lladrad. |
| Archwilio Mewnol | Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) - Cefnogi'r gwerthusiad ar gyfer twyll posibl. |
| Y Garfan Twyll Corfforaethol | Yn gyfrifol am gyflawni Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru'r Cyngor, gan gynnwys y mesurau sydd ar waith i gydnabod, atal ac erlyn gweithgarwch twyll a llygru.<br>Darparu pwynt cyswllt penodol er mwyn rhoi gwybod am weithgarwch twyllodrus a amheuir.<br>Mae hyn hefyd yn cynnwys y rôl gydgysylltu yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). |
| Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Gwasanaeth | Rheoli a lliniaru'r risg o dwyll a llygru. Hyrwyddo ymwybyddiaeth staff a sicrhau bod pob achos o dwyll dan amheuaeth neu sydd wedi'i ddwyn i sylw yn cael ei gyfeirio ar unwaith at y Garfan Twyll Corfforaethol. Sicrhau bod mecanweithiau ar waith o fewn eu meysydd gwasanaeth i asesu'r risg o dwyll, llygru a lladrad a lleihau'r risgiau yma drwy roi rheolaethau mewnol cryf ar waith. Mae'n hanfodol bod y grŵp yma'n dangos arweiniad wrth gefnogi ymchwiliadau i dwyll a llygru a'u bod yn ymateb i gamau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith yma. Eu rôl yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yw darparu data ar gyfer paru a dadansoddi'r allbynnau o'r ymarfer paru a chymryd camau priodol. |
| Gweithwyr | Ein gweithwyr yw'r amddiffyniad cyntaf yn erbyn twyll a llygru. Mae disgwyl iddyn nhw ymddwyn mewn ffyrdd sy'n hollol ddi-fai, uwchlaw amheuaeth ac sy'n gwbl atebol. Mae gweithwyr hefyd yn gyfrifol am roi gwybod am gamymddwyn trwy weithdrefnau 'chwythu'r chwiban' sydd wedi'u hen sefydlu. Mae disgwyl i weithwyr gadw at Gôd Ymddygiad Gweithwyr, Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contractau. Cyfrifoldeb pob un o weithwyr y Cyngor yw atal a dod o hyd i achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygru. |
| Cyflenwyr a Chontractwyr Penodedig | Yn gyfrifol am fabwysiadu naws a diwylliant y Cyngor mewn perthynas â diwylliant dim goddefgarwch ac adrodd honiadau o weithgarwch twyllodrus yn unol â'r dull a argymhellir yn y ddogfen yma. |

**ATODIAD B – Diffiniadau**

**Beth yw twyll?**
Mae **Deddf Twyll 2006**yn manylu ar y diffiniadau cyfreithiol o dwyll ac fe'i defnyddir ar gyfer erlyniad troseddau twyll drwy'r system droseddol. Mae'r Cyngor hefyd yn mynd i'r afael â thwyll mewn materion disgyblu sydd ddim yn droseddol.

At ddibenion y ddogfen yma diffinnir twyll fel: gweithredu'n anonest i hwyluso enillion (yn bersonol neu i rywun arall) ar draul y Cyngor, trigolion y Fwrdeistref neu'r gymuned genedlaethol ehangach.

Mae'r diffiniad yn ymdrin â throseddau amrywiol gan gynnwys: twyll, ffugio, lladrad, camddefnydd, cydgynllwynio a chamliwio.

**Beth yw llygru?**
Llygredd yw cynnig neu dderbyn cymhellion sydd wedi'u cynllunio i ddylanwadu ar gamau gweithredu neu benderfyniadau swyddogol. Mae modd i'r cymhellion yma fod ar sawl ffurf gan gynnwys arian parod, gwyliau, tocynnau i achlysuron, prydau bwyd.

**Deddf Llwgrwobrwyo 2010**
Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â llwgrwobrwyo a llygru. Yn ôl y Ddeddf, mae'n drosedd i unigolyn neu sefydliad gynnig, addo neu roi llwgrwobr. Yn ogystal, mae'n drosedd i ofyn am lwgrwobr, cytuno i un, neu'i dderbyn.

Caiff 'llwgrwobrwyo' ei ddiffinio fel rhoi neu gymryd gwobr o ganlyniad i weithredu yn anonest a / neu yn groes i'r gyfraith. Mae 4 o droseddau posibl:

- Llwgrwobrwyo person arall - cynnig, addo neu roi gwobr ariannol er mwyn annog person i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd amhriodol;
- Derbyn llwgrwobr - derbyn, cytuno i dderbyn neu ofyn am wobr o ganlyniad i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd amhriodol;
- Llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor - cynnig neu roi mantais ariannol i swyddog cyhoeddus tramor gyda'r bwriad o ddylanwadu ar y swyddog, neu'r bwriad o sicrhau neu gadw busnes, lle does dim caniatâd na gofyniad i'r swyddog wneud yn ôl cyfraith ysgrifenedig; a'r
- Trosedd gorfforaethol o fethu ag atal llwgrwobrwyo - os yw sefydliad yn methu atal pobl sy'n gweithredu ar ei ran fod ynglŷn â llwgrwobrwyo.

Mae canllawiau pellach ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i egluro i sefydliadau pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio.

**Yn ogystal â'r uchod, mae Taliadau Hwyluso** yn fath o lwgrwobrwyo gan swyddogion cyhoeddus tramor, at ddiben hwyluso gweithredoedd llywodraethol arferol er mwyn sicrhau neu gadw busnes neu fantais anheg arall. Mae taliadau hwyluso yn wahanol i lwgrwobrwyo a llygru llwyr. Mewn rhai gwledydd, mae darparu taliadau answyddogol bach yn cael ei ystyried yn arferol o dan rai amgylchiadau, er bod yr arfer yma'n anghyfreithlon yn y rhan fwyaf o wledydd.

# Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru

**Beth yw lladrad?**
Mae lladrad yn golygu dwyn unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor neu sydd wedi'i ymddiried iddo (h.y. cronfeydd cleientiaid), gan gynnwys arian parod, offer, cerbydau, data.

Dydy lladrad ddim o reidrwydd angen i dwyll gael ei gyflawni. Mae modd i ladrad hefyd gynnwys dwyn eiddo sy'n perthyn i'n staff neu Aelodau Etholedig tra ar eiddo'r Cyngor.

**Beth yw gwyngalchu arian?**
Gwyngalchu arian yw'r broses a ddefnyddir gan droseddwyr i geisio 'ailgylchu' elw eu gweithgareddau troseddol er mwyn cuddio ei darddiad a'i berchnogaeth ac sy'n eu gadael ag arian does dim modd ei olrhain yn ôl. Cyfarwyddir pob gweithiwr i fod yn effro i'r posibilrwydd cynyddol o dderbyn ceisiadau mae modd eu defnyddio ar gyfer gwyngalchu arian a cheisiadau anghyfreithlon am arian trwy e-byst. Mae canllawiau manwl wedi'u nodi yn Strategaeth Gwyngalchu Arian y Cyngor.

Mae modd i unrhyw wasanaeth sy'n derbyn arian gan berson neu gorff allanol fod yn agored i weithrediad gwyngalchu arian. Mae'r angen i fod yn wyliadwrus yn hollbwysig ac os oes unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb y trafodiad yna rhaid ceisio cyngor. Dylai swyddogion geisio cyngor gan reolwyr, y garfan Archwilio Fewnol neu'r garfan Twyll Corfforaethol. Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian y Cyngor (MLRO) yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol.

**ATODIAD C – Mathau o Risgiau 'Twyll' i ALl**

Mae ymchwil cenedlaethol yn awgrymu y gallai enghreifftiau o risg twyll sy'n wynebu Awdurdodau Lleol gynnwys:

| **Mathau o Risg Twyll** | **Crynodeb** |
|---|---|
| Budd-daliadau Tai a'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | Mae hawlydd yn gwneud hawliad ar sail gwybodaeth y gwyddys ei bod yn anghywir neu'n methu â hysbysu'r Cyngor am newid mewn amgylchiadau a fyddai'n lleihau'r dyfarniad. |
| Gostyngiad Treth y Cyngor i Berson Sengl / Gostyngiadau Treth y Cyngor Eraill | Mae hawlydd yn hawlio gostyngiad pan fo mwy nag un person yn byw ar yr aelwyd, yn honni ar gam ei fod yn fyfyriwr neu'n honni bod eiddo'n wag a heb ddodrefn. |
| Twyll Seiber | Camddefnyddio technoleg i fanteisio ar unrhyw wendid canfyddedig. Mae modd i hyn gynnwys ymosodiadau meddalwedd wystlo/maleiswedd, hacio neu ddefnydd amhriodol o systemau a data'r Cyngor. |
| Taliadau Uniongyrchol | Mae derbynnydd yn hawlio Taliadau Uniongyrchol ar gam, e.e. drwy gamliwio eu hanghenion gofal neu fethu â datgelu eu bod wedi derbyn budd-daliadau eraill. |
| Twyll Caffael | Mae'r rhain yn weithgareddau sy'n cynnwys gosod prisiau, rigio cynigion a rhannu'r farchnad. Risgiau llwgrwobrwyo a llygru mewnol |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol | Mae busnes yn gwneud cais am ryddhad ardrethi ar sail gwybodaeth ffug. |
| Twyll Mewnol gan Swyddogion ac Aelodau | Mae modd i swyddogion neu Aelodau gamddefnyddio eu safle er budd preifat neu gamddefnyddio asedau'r Cyngor er budd personol. |
| Cyllid Cleientiaid | Rheolaeth amhriodol o arian cleientiaid bregus. |
| Twyll Etholiadol | Twyll cofrestru pleidleiswyr; dynwared (mewn gorsafoedd pleidleisio); gwe-rwydo a hacio, ymosodiadau atal gwasanaeth ac ymosodiadau meddalwedd wystlo (yn enwedig ar adeg etholiad). |
| Trin Arian | Mae lladrad neu gyfrifo ffug yn digwydd gyda swyddogion sy'n gyfrifol am drin arian parod (ac incwm arall) diogelwch a bancio. |

# Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru

| | |
|---|---|
| Troseddau Cyfundrefnol/Gwyngalchu Arian | Mae modd i systemau'r Cyngor gael eu defnyddio i wyngalchu arian. |
| Twyll Yswiriant | Gwneir honiadau ffug gan hawlwyr cyfresol ar draws awdurdodau. |
| Bathodynnau Glas | Camddefnydd o fuddion y cynllun gan ddeiliad bathodyn neu rywun arall. |
| Taliadau i gyflenwyr (gan gynnwys talu drwy Gardiau Prynu) | Camddefnyddio systemau taliadau'r Cyngor neu gymryd risgiau amhriodol gyda gorchmynion banc. |
| Cyflogaeth / Cyflogres | Hawliadau cyflog amhriodol neu 'rhith-weithwyr'. |
| Grantiau | Y risg o gwmnïau neu unigolion ffug yn cyflwyno hawliadau amhriodol. Er enghraifft mathau o gymorth Covid sy'n cael ei dalu gan y Cyngor ar ran eraill. |
| Trwyddedu | Ceisiadau am drwydded sydd ddim yn gyfreithlon nac yn briodol. |
| Recriwtio | Methiant i ddatgelu neu ddarparu gwybodaeth briodol sy'n berthnasol i'r swydd. |